**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

**National Assembly for Wales**
Constitutional and Legislative Affairs Committee

Elin Jones AC
Y Llywydd

28 Mawrth 2019

Annwyl Lywydd,

**Cynhadledd y Llefaryddion**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 13 Mawrth 2019, a drafodwyd gennym yn ein cyfarfod ar 18 Mawrth 2019.

Credwn fod yr adroddiad a gomisiynwyd gan Syr Paul Silk yn nodi materion y gallai Llefaryddion eu hystyried ymhellach ar adeg briodol. Unwaith y bydd gan y Llefaryddion safbwynt rhyngddynt ynghylch a ellid trefnu cynhadledd y Llefaryddion, a sut y gellid gwneud hynny, rydym yn awgrymu y byddai hynny'n adeg briodol i godi'r mater yn ffurfiol gyda'r Fforwm Rhyng-seneddol.

Byddwn yn parhau i ddadlau o blaid ein hargymhelliad yn ystod cyfarfodydd y fforwm yn y dyfodol wrth i ni ystyried goblygiadau Brexit i lywodraethiant y DU.

Yn y cyfamser, byddwn yn hapus i gyfarfod i drafod y mater hwn ymhellach pe byddai hynny'n ddefnyddiol.

Yn gywir,

**Mick Antoniw**
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddMCD@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddMCD
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCLA@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCLA
0300 200 6565